Adeiladu Pontydd yn Amsterdam

Helo! Fy enw i yw Katerina Jonathan ac ‘rwy wrthi’n astudio Meddygaeth yng Nghaerdydd.

‘Rwy’n wreiddiol o Ruthun lle ‘rwyf yn aelod yng Nghapel Pendref, ond byddaf yn mynd i Gapel Minny Street tra yng Nghaerdydd.

Yn ystod yr haf eleni, cefais y cyfle anhygoel o fynd i Amsterdam am bythefnos a hanner i wirfoddoli gyda Chyngor y Genhadaeth Fyd-Eang (*Council for World Mission* - CWM) Ewrop. Rhaid cyfaddef i mi fod yn weddol bryderus cyn dechrau’r siwrnai, ond bu’n brofiad bythgofiadwy! ‘Roedd 34 aelod yn ein criw bach o wirfoddolwyr yn yr Iseldiroedd, wedi teithio o bob cwr o’r byd; rhai o’r Iseldiroedd ei hun, eraill o Sweden, Twfalw (un o ynysoedd y Cefnfor Tawel), Malaysia, Botswana, Singapore, Hwngari a gwledydd Prydain. Un o’m hoff atgofion yw eistedd wrth y bwrdd cinio un diwrnod a sylwi fod ieuenctid o wyth gwlad yno’n bwyta’r cyri tiwna! ‘Rwy’n dal i synnu pa mor agored ac agos y tyfom o fewn ychydig ddiwrnodau.

Enw ymgyrch CWM yn Amsterdam oedd ‘*Mission Impossible: Bruggen Bowen*’ - sef ‘Adeiladu Pontydd’. Dewiswyd tri phrif brosiect i’r gwirfoddolwyr eu cyflawni yn ystod y bythefnos. Helpu mewn lletyau i’r digartref oedd y prosiect cyntaf, drwy weini bwyd, golchi a thrwsio dillad, siarad, chwarae gemau a diddanu’n gyffredinol. Cywaith gyda’r elusen leol ‘*Stichting Present*’ oedd yr ail brosiect, yn cynorthwyo, clirio a thacluso gerddi’r henoed a’r tlawd - yn union fel *Ground Force* bach!

Dewisais i’r trydydd prosiect, sef trefnu a chynnal clybiau chwarae i blant lleol tlawd. Er fy mod yn poeni ychydig am gyfathrebu a'r plant - doedd fawr o Saesneg ganddynt, a dim Iseldireg gen i - erbyn diwedd y diwrnod cyntaf roeddem yn sgwrsio’n hwylus mewn cymysgedd o eiriau syml Iseldireg, ystumiau a symudiadau! Seiliwyd ein gweithgareddau ar stori ‘*Taith y Pererin*’ (gan John Bunyan 1628 – 1688); cafodd y plant, oedd rhwng pedair a deuddeg mlwydd oed, wythnos i dynnu lluniau, chwarae gemau a phrofi sawl anturiaeth gyda Bob, arth frown fu’n ein tywys ar hyd y daith. Ar ddechrau’r prosiect, trefnwyd y plant a’u gwarchodwyr yn ddau griw, ond erbyn diwedd yr wythnos unodd y grwpiau i gael tri diwrnod gyda’n

gilydd. Golygai hyn fod gennym 25 o blant yn rhedeg o gwmpas yn taflu balŵns llawn dŵr at ei gilydd! Am hwyl!

Wrth gwrs, nid gwaith i gyd oedd Amsterdam. Rhaid oedd ymlacio hefyd! Cefais y cyfle i brofi diwylliant yr Iseldiroedd ac i flasu pob math o fwydydd gan gynnwys '*hot sput*'- unwaith yn ddigon! - ac '*appelschnit*' - math o gacen afalau, fy ffefryn! Aethom ar daith mewn cwch ar y camlesi, i weld Amgueddfa Anne Frank ac Amgueddfa Van Gogh, a chael benthyg beiciau am noson i weld mwy o'r ddinas. Trefnwyd taith o gwmpas y '*Red Light District*' dan arweiniad gŵr oedd wedi bod yn ddigartref yn Amsterdam am 11 mlynedd. Anodd iawn esbonio'r effaith a gafodd y profiad yma arnaf - agoriad llygaid i realiti bywyd ambell un.

Dysgais gymaint yn Amsterdam, ond yn bennaf dysgais na ddylwn i fod ofn yr hyn 'rwyf i yn ei gredu ac i ddweud fy marn. Roedd pawb yno yn dod o gefndiroedd mor amrywiol, ond gadewais Amsterdam gyda ffrindiau gwerth chweil! 'Rwy'n hynod ddiolchgar i ffrindiau Minny Street, Caerdydd a'm hanogodd i ystyried mynd i Amsterdam, i drefnwyr '*Adeiladu Pontydd*' ac i eglwysi Minny Street a Phendref, Rhuthun am eu cefnogaeth. Dechreuaf y flwyddyn newydd yn y coleg â thrysor o atgofion a chyfeillion newydd (o bob oed!), a'r bwriad o wirfoddoli eto yn y dyfodol!

Katerina Jonathan